



26 Mehefin 2020

Annwyl gydweithiwr

Dyfarnu canlyniadau cymwysterau galwedigaethol yn haf 2020

Hoffwn ddiolch i chi am chwarae eich rhan yn y gwaith o gefnogi dysgwyr i ennill cymwysterau galwedigaethol yr haf hwn. O ganlyniad i'ch gwaith caled, bydd mwyafrif y dysgwyr yn gallu symud ymlaen yn eu hastudiaethau neu eu cyflogaeth gyda chanlyniad wedi'i gyfrifo neu ar ôl sefyll asesiad wedi'i addasu. Wrth i ganolfannau ailagor yn raddol, mae asesiadau gohiriedig hefyd yn dechrau digwydd lle mae hi'n ddiogel gwneud hynny.

Ein ffocws ar gyfer yr haf hwn fu sicrhau bod:

- cynifer o ddysgwyr sy'n disgwyl derbyn canlyniadau cymwysterau yn gallu gwneud hynny lle bo'n bosibl, fel y gallant symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu bywydau heb darfu pellach;
- canlyniadau'n ddigon dilys a dibynadwy, fel y byddant mor werthfawr â rhai unrhyw flwyddyn arall; a bod
- trefniadau mor deg â phosibl.

Rydym yn cydnabod bod trefniadau'r haf hwn yn cyflwyno heriau sylweddol, yn enwedig i ganolfannau sy'n defnyddio nifer fawr o gyrff dyfarnu gwahanol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr yn Lloegr (Ofqual) ac yng Ngogledd Iwerddon (CCEA Regulation) i sicrhau cymaint o gysondeb ag y bo modd rhwng gyrff dyfarnu, ond bydd gwahaniaethau bob amser, o ystyried yr amrywiaeth o gymwysterau sydd ar gael. Deallwn hefyd y gall fod yn rhwystredig pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r dull lliniaru cychwynnol ar gyfer cymhwyster neu fod gofynion am asesiadau wedi'u haddasu yn cael eu diwygio. Bydd unrhyw newidiadau a gaiff eu gwneud gan gyrff dyfarnu yn ddiweddar yn ymateb i adborth gan ganolfannau neu gyrff yn y diwydiant, neu i geisio mwy o gysondeb â chymwysterau tebyg eraill. Os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw ofynion neu ganllawiau, byddwn yn eich annog i barhau i gysylltu â'r corff dyfarnu dan sylw cyn gynted â phosibl.

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Gallwch lawrlwytho'r rhestr lawn o gymwysterau a'r prif ddull gweithredu ar gyfer pob un o'n [gwefan](#). Mae Ofqual hefyd wedi creu [adnodd](#) rhyngweithiol i ddysgwyr a chanolfannau ei ddefnyddio sy'n cynnwys yr holl gymwysterau sydd ar gael yng Nghymru.

Fe wnaethom gyhoeddi [datganiad](#) ar drefniadau holl gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru, gan gynnwys y cymwysterau newydd yng Nghymru yn unig ar 24 Ebrill 2020 ac mae rhestr o'r cymwysterau hyn i'w gweld ar ein gwefan. Gan weithio'n agos gyda'r cyrff dyfarnu i sicrhau dull gweithredu cyffredin, roeddem yn gallu cyhoeddi y bydd dysgwyr [Sgiliau Hanfodol Cymru](#) oedd i fod i gwblhau eu cymhwyster cyn diwedd Gorffennaf yn cael canlyniad wedi'i gyfrifo eleni.

Gwyddom y bydd yr heriau hyn yn parhau ymhell y tu hwnt i'r haf. Felly, yn ogystal â goruchwyllo gweithredu trefniadau eithriadol yr haf eleni ar gyfer dyfarnu cymwysterau, mae ein sylw eisoes wedi troi at ystyried pa drefniadau y mae angen i ni eu rhoi ar waith o fis Medi 2020 ymlaen.

Bydd y trefniadau rydym wedi'u rhoi ar waith ar gyfer asesiadau wedi'u haddasu'r haf hwn yn parhau am gyhyd ag y credwn eu bod yn angenrheidiol. Er bod rhai cyrff dyfarnu wedi gosod terfynau amser ar gwblhau asesiadau wedi'u haddasu ar gyfer y dysgwyr hynny y mae angen eu canlyniadau arnynt ym mis Awst 2020, gall yr addasiadau hynny aros ar waith y tu hwnt i'r dyddiadau hynny er mwyn caniatáu i gynifer o ddysgwyr â phosibl gwblhau eu cymwysterau.

Rydym hefyd yn ystyried pa addasiadau pellach all fod eu hangen ar gyfer yr ystod lawn o gymwysterau galwedigaethol mewn ymateb i effaith barhaus y pandemig. Rydym yn awyddus i barhau i ymgysylltu ar draws y sector ac i dderbyn adborth wrth inni ddatblygu ein dull gweithredu. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniadau ac yn diweddarau ein gwefan gyda datblygiadau allweddol.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod arholiadau ac asesiadau mor deg â phosibl ac ystyried unrhyw ofynion iechyd cyhoeddus a lles dysgwyr. Diolch i chi am eich cefnogaeth, eich proffesiynoldeb a'ch ymroddiad dros y misoedd diwethaf a'ch cefnogaeth barhaus yn y dyfodol.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr